

BookTrust Cymru

Gwahoddiad i gynniq cynhyrchu ffilmiau stori byrion ar gyfer rhaglen Pori Drwy Stori

Rydym ni'n gwahodd storiwr neu grŵp o storiwyr i gynhyrchu cyfres o ffilmiau byrion i gefnogi adnodd calendr Pori Drwy Stori Dyna Dywydd. Dylai'r ffilmiau rannu straeon sy'n cysylltu â thema 'y tywydd'. Straeon a adroddir ar lafar ddylai'r rhain fod, yn hytrach na darlleniadau o lyfrau.

Fel arfer defnyddir calendr Dyna Dywydd gan blant yn y Derbyn (4-5 oed) dros gyfnod gwyliau hanner tymor mis Hydref. Bydd y ffilmiau hyn yn ymestyn bywyd yr adnodd yn nhymor yr hydref, ac yn cefnogi mwy o ymgysylltu. Dylent hefyd helpu plant i ddatblygu cariad at straeon.

Rhaid i'r set o ffilmiau gynnwys deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dyddiad cau gwneud cais: 5pm, dydd Sul 6 Medi 2020

Ein bwriad fydd rhoi gwybod y canlyniad i'r ymgeisydd llwyddiannus cyn gynted â phosib yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 7 Medi.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffilmiau: Dylai o leiaf ddwy ffilm Gymraeg a dwy ffilm Saesneg fod ar gael erbyn **30 Medi 2020**; dylid cyflwyno gweddill y deunydd erbyn **9 Hydref 2020**.

Gallwch weld adnoddau Dyna Dywydd yma: <https://www.booktrust.org.uk/what-we-do/programmes-and-campaigns/poridrwystori/autumn-term-resources/weather-watch-calendar/>

Gallwch weld deunydd Pori Drwy Stori pellach, gan gynnwys ffilmiau, yma: www.poridrwystori.org.uk.

Am BookTrust Cymru

BookTrust yw elusen ddarllen plant fwyaf y DU. Rydym wedi ymrwymo i gael plant yn darllen am ein bod ni'n gwybod fod plant sy'n darllen yn hapusach, yn iachach, yn fwy cydymdeimladol ac yn fwy creadigol; maen nhw hefyd yn gwneud yn well yn yr ysgol.

Bob blwyddyn byddwn ni'n cyrraedd 3.9 miliwn o blant ledled y DU gyda llyfrau, adnoddau a chefnogaeth i'w helpu i ddatblygu cariad at ddarllen. Bydd BookTrust yn cael plant i ddarllen mewn sawl ffordd wahanol, ond ein blaenoriaeth yw cyffroi plant ynghylch llyfrau, rhigymau a straeon.

Am Pori Drwy Stori

Mae Pori Drwy Stori yn annog teuluoedd i fwynhau llyfrau, rhigymau a rhifau gyda'i gilydd, ac mae'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth gydag ysgolion a meithrinfeydd yng Nghymru. Bydd pob plentyn yn y Derbyn (4-5 oed) yng Nghymru'n derbyn adnodd llythrennedd a rhifedd a gynlluniwyd yn arbennig bob tymor. Cynlluniwyd y rhaglen i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen ac, yn hanfodol, i gefnogi rhieni a gofawyr i chwarae rôl hyfyw yn addysg eu plant ac i gefnogi ysgolion i ddatblygu dolen gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref.

Yn 2017-18, fe wnaeth BookTrust Cymru dreialu estyniad i'r rhaglen ar gyfer plant Meithrin (3-4 oed), gan ganolbwyntio ar sgiliau llafaredd / siarad a gwranddo. Mae'r cynllun Meithrin wedi cyrraedd nifer gynyddol o blant bob blwyddyn a bydd yn cyrraedd at 20,000 o blant yn 2021.

Mae BookTrust Cymru'n darparu rhaglen lawn o gefnogaeth i athrawon ac ymarferwyr eraill, i'w galluogi i gael y gorau o Pori Drwy Stori.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y rhaglen, gan gynnwys detholiad o astudiaethau achos, yma: www.poridrwystori.org.uk

Gellir cael manylion am adnoddau'r rhaglen ar ddiwedd y ddogfen hon.

Pwrpas y cytundeb hwn

Rydym ni'n ceisio storiwr/storiwyr profiadol i gynhyrchu cyfres o ffilmiau sy'n adrodd straeon byrion i gefnogi **calendr Dyna Dywydd Pori Drwy Stori ar gyfer plant y Derbyn**.

Bydd y ffilmiau hyn sy'n seiliedig ar straeon yn cefnogi plant a theuluoedd i gael mwy o fudd o adnodd Dyna Dywydd yn ystod tymor yr hydref 20-21. Bydd hefyd yn cysylltu â gweithgaredd ysgrifennu tymor yr haf, Fy Llyfr, drwy ddarparu symbyliad stori i blant ac ymarferwyr allu ailymweld ag ef yn nhymor yr haf.

Bydd plant yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi ar ôl dros bum mis i ffwrdd. Mae Pori Drwy Stori'n cynnig ffordd hwyliog a chyfeillgar o gefnogi'r newid sylweddol hwn.

Mae angen i ysgolion Cymru ddatblygu cynlluniau ar gyfer dysgu cyfunol yn ogystal (cymysgedd o addysg wyneb yn wyneb, o hirbell ac ar lein). Ein gobaith yw bod datblygu elfen ar lein ychwanegol ar gyfer yr adnodd yn helpu i ddenu plant ac i barhau â dysgu i bawb, waeth beth fo'r amgylchiadau allanol.

Bydd llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaeth i bob dysgwr, felly ein gobaith yw y bydd y ffilmiau hyn yn helpu i gyfrannu at ddatblygiad plant yn y meysydd hyn.

Gofyniad craidd:

Rydym ni eisiau cael cyfres o ffilmiau byrion yn seiliedig ar straeon er mwyn ymestyn cyfleoedd dysgu a mwynhau a gynigir gan adnodd Dyna Dywydd. Dylai'r ffilmiau fod yn straeon a adroddir ar lafar yn hytrach na straeon sy'n cael eu darllen o lyfr.

Dylai pob ffilm rannu stori wahanol, Dylent gysylltu â thema'r tywydd a rhoi mwynhad i blant yn y cyfnod hwn yn y Derbyn.

Dylai'r set ffilmiau gynnwys:

- O leiaf 4 stori Saesneg sy'n cynnwys Cymraeg achlysurol a fydd yn gyfarwydd i ddysgwyr ar y lefel hwn ble bo'n addas
- O leiaf 4 stori Gymraeg, addas ar gyfer plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg (siaradwyr iaith gyntaf a siaradwr â mamiaith arall)

Nod y ffilmiau

- Galluogi plant i fwynhau straeon – naill ai ar eu pen eu hunain, gyda chyfoedion yn y dosbarth neu gyda'r teulu

- Cynyddu ymgysylltiad plant, rhieni / gofawlyr ac ymarferwyr ag adnodd Dyna Dywydd a Pori Drwy Stori
- Cefnogi plant i ddatblygu sgiliau llythrennedd, gan gynnwys sgiliau gwrando a thalu sylw
- Darparu offer i gefnogi ymarferwyr gyda gofynion dysgu cyfunol ar hyn o bryd.

Noder: rydym ni'n rhagweld y bydd y ffilmiau hyn yn dod yn rhan barhaol o fanc adnoddau PDS, yn hytrach na chael eu defnyddio eleni'n unig. Ni ddylai'r straeon gyfeirio'n amlwg at yr argyfwng presennol felly.

Beth sydd angen ei ddarparu

Lleiafswm o:

- 4 stori Saesneg, sy'n ymgorffori Cymraeg achlysurol a fydd yn gyfarwydd i ddysgwyr y cyfnod hwn ble bo'n addas, ac sy'n cysylltu ag adnodd Dyna Dywydd
- 4 stori Gymraeg, sy'n addas ar gyfer plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg (siaradwyr iaith gyntaf a siaradwr â mamiaith arall) , ac sy'n cysylltu ag adnodd Dyna Dywydd

Yn ogystal, dylai'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu:

- Paragraff cryno am bob stori i gefnogi athrawon gyda'u gwaith cynllunio
- Cyfres o glipliau tua 10 eiliad o hyd i gyflwyno'r straeon er. mwyn cefnogi rhannu a hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol (gweler y canllawiau)

Hyd

Gwerthfawrogwn y gall hyd y straeon amrywio, ac y gallai ymgeiswyr gynnwys straeon o hyd gwahanol a fyddai'n ddefnyddiol i ddatblygu cynnydd.

Byddem ni'n rhagweld y dylai'r ffilmiau fod rhwng 3-5 munud o hyd. Uchafswm hyd unrhyw stori fyddai 5 munud, ac mae 3 munud yn addas i ystod canolbwyntio grŵp oedran hwn.

Cynulleidfa darged

Uwchlaw popeth arall, dylai'r ffilmiau fod yn ddeniadol i blant 4-5 oed yng Nghymru, yn eu tymor cyntaf yn y Derbyn.

Dylent hefyd fod yn apelgar i rieni / gofawlyr ac yn hygyrch i ymarferwyr fel cefnogaeth i addysgu (e.e. dod yn gyfarwydd â'r rhigymau a'r caneuon).

Dylent fod yn addas ar gyfer eu defnyddio mewn ysgolion ac yn y cartref.

Cynnwys

Dylai'r ffilmiau fod:

- Yn hwyliog a deniadol, ac yn addas i'r gynulleidfa yn y Derbyn (tymor yr hydref);
- Yn cysylltu â thema 'y tywydd';
- Yn cynnwys ystod o straeon a fydd yn denu plant gwahanol ac yn cynnig amrywiaeth;
- Wedi'u hamseru a'u hanelu'n addas at y gynulleidfa (plant ifanc, dysgwyr Gymraeg, plant a theuluoedd sydd â Saesneg neu Gymraeg fel iaith Ychwanegol);

- Yn cynnwys deunydd sy'n hygyrch a deniadol i bob dysgwr, o ystod o gefndiroedd teuluol a chartrefol, ac sy'n wirioneddol gynhwysol;
- Yn unol ag egwyddorion Pori Drwy Stori.

Ystyriaethau ychwanegol

- Rydym ni'n croesawu ceisiadau gan storiwyr unigol ac oddi wrth grwpiau o storiwyr a all gynnig, rhyngddynt, amrywiaeth ac amrywiad.
- Gall straeon fod yn chwedlau traddodiadol neu'n storïau newydd a gallant ddod o unrhyw le yn y byd, er ein bod ni'n annog ymgeiswyr i gynnwys rhai straeon sy'n deillio o Gymru (dylid cytuno ar hawlfraint ar gyfer unrhyw ddeunydd a ddefnyddir);
- Gall chwedlau traddodiadol ymddangos yn aml fel pe baent yn adlewyrchu stereoteipiau henffasiwn, felly rydym ni'n awyddus i glywed sut y bydd ymgeiswyr yn dethol deunydd sy'n gynhwysol ac yn addas i blant Cymru gyfoes;
- Mae gan bob plentyn yn y Derbyn yng Nghymru fynediad i Pori Drwy Stori, felly dylai straeon gael eu dethol gyda'r bwriad o osgoi sensitifedd a allai beri i rai plant fethu ag ymgysylltu, yn enwedig o ran cyflwyno perthynas deuluol;
- Mae croeso i chi ystyried ymgorffori rhigymau neu ganeuon syml i'r straeon, os ydynt yn addas ar gyfer y cynnwys a ddewiswyd;
- Rydym ni'n croesawu cynigion sy'n creu parhad rhwng y ffilmiau, ac sy'n helpu plant i ymgysylltu e.e. ymadroddion neu symudiadau a ailadroddir.
- Nid oes angen i'r straeon Cymraeg a Saesneg fod yr un peth.

Gofynion technegol

Rydym am i ymgeiswyr ganolbwyntio ar ddarparu straeon deniadol, clir. Serch hynny, mae angen i'r ffilmiau fod o safon sy'n addas ar gyfer eu rhannu ar lein fel rhan o raglen Pori Drwy Stori ac i gwrdd â'r gofynion technegol.

Gofynion craidd yw:

- Y fformat a ffafir yw fideo HD (1920 x 1080 o ran 'resolution'); dylai pob ffilm gael ei saethu mewn fformat tirlun.
- Mae ansawdd sain clir yn hanfodol, a dylid dileu synau cefndirol; rydym ni'n argymhell defnyddio meicroffon allanol yn hytrach nag un integredig.
- Dylid gwneud ffilmiau gan ddefnyddio trybedd neu offer tebyg.
- Dylai ffilmiau fod wedi'u goleuo'n dda ac yn rhydd o amhariad.
- Dylai lleoliadau a chefnidiroedd fod yn ddi-dranglwns.
- Cynghorior ymgeiswyr i feddwl yn ofalus am eu defnydd o bropiau a phpedau, er mwyn cadw'r straeon yn glir ac er mwyn gallu'u mwynhau fel sain yn unig os dymunir.

Gellir cael mwy o ganllawiau am ofynion ffilmio yn Atodiad 1.

Byddwn ni'n rhannu'r ffilmiau ar adran Pori Drwy Stori gwefan BookTrust i ddechrau.

Byddant ar gael hefyd drwy gyfrwng sianelau cyfryngau cymdeithasol. Fel arfer byddwn ni'n cynnal ffilmiau ar sianel YouTube BookTrust er hwyluso mynediad.

Rolau a chyfrifoldebau

Bydd BookTrust Cymru yn:

- Cynghori ar gynnwys a darparu mewnbwn gan randdeiliaid ble bo'n addas;
- Cytuno ar gynnwys terfynol y stori gyda'r ymgeisydd llwyddiannus;
- Darparu adborth yn ystod y broses ffilmio a golygu yn ôl y galw;
- Ychwanegu brandio at y ffilmiau yn ôl y galw e.e. sleidiau cychwynnol a therfynol;
- Ychwanegu isdeitlau i'r ffilmiau os oes angen.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- Darparu rheoli prosiect;
- Datblygu cynnwys sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa ac sy'n cwrdd â manyleb y prosiect;
- Cwblhau'r holl ffilmio a golygu a chyflwyno ffeiliau mewn fformat a gytunwyd ar gyfer eu rhannu'n gyhoeddus;
- Cynhyrchu deunydd ffilm â chynnwys a 'resolution' o ansawdd uchel, gyda sain clir yn Gymraeg a Saesneg;
- Sicrhau fod pob caniatâd perthnasol yn cael eu darparu e.e. mae unrhyw stori'n rhydd o gyfyngiadau hawlfraint;
- Darparu amlinelliad ysgrifenedig byr o bob stori (tua 150 o eiriau);
- Diweddarau BookTrust yn rheolaidd o ran cynnydd y prosiect.

Dyddiadau cau

Dylai o leiaf ddwy ffilm Gymraeg a dwy ffilm Saesneg fod ar gael erbyn 30 Medi 2020; dylid cyflwyno gweddill y deunydd erbyn 9 Hydref.

Cyllideb

Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn yw: **£1,200.**

Gosodwyd y gyllideb hon gan gydnabod yr ymchwil, gwaith paratoi a'r amser sydd ei angen i greu cynhyrchiad o safon.

Dylai hyn dalu am bob cost, gan gynnwys teithio a threuliau.

Sut i wneud cais

Er mwyn cynnig am y cytundeb hwn, a fydddech cystal â chyflwyno cynnig byr sy'n amlinellu:

- 1. Bywgraffiad byr o'r storiwr / storiwyr fydd yn cymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys:**
 - Profiad blaenorol o weithio gyda phlant oedran Derbyn (4-5 oed)
 - Profiad o greu cynnwys ar lein (darparwch ddolenni os ydynt ar gael)
 - Profiad o weithio'n ddwyieithog ac yn Gymraeg
 - Unrhyw brofiad neu arbenigedd perthnasol arall
- 2. Cynllun prosiect cryni yn gynnwys:**
 - Pa straeon rydych chi'n rhagweld y byddwch yn eu cynnwys, gyda disgrifiad cryno ac esboniad pam rydych chi o'r farn eu bod yn addas (nodwn y gall y straeon hyn newid wrth i'r prosiect ddatblygu)
 - Sut fyddwch chi'n gwneud y straeon yn ddeniadol i'r gynulleidfa darged
 - Sut fydd y straeon hyn yn cwrdd â gofynion cynhwysiant y prosiect

- Sut fyddwch chi'n cwrdd â'r gofynion dwyieithrwydd
 - Unrhyw gynlluniau eraill sydd gennych dros wneud y ffilmiau hyn yn bleserus a deniadol i blant.
3. **Sut fyddwch chi'n cwrdd â gofynion technegol y prosiect**
 4. **Sut fyddwch chi'n defnyddio'r gyllideb i gyflawni'r prosiect** e.e. cyfraddau dyddiol, offer neu gefnogaeth dechnegol ac ati
 5. **Unrhyw beryglon neu heriau a sut y byddwch yn eu goresgyn**
 6. **Unrhyw wybodaeth arall a fydd yn eich barn chi yn cefnogi eich cais**

Bernir cynigion yn erbyn y meini prawf canlynol:

1. Ansawdd y cynnig o'i gymharu â gofynion y rhaglen, gan gynnwys dwyieithrwydd (50%)
2. Record flaenorol o weithio ar brosiectau tebyg (25%)
3. Gwerth am arian (15%)
4. Rheoli risg ac ansawdd y cynlluniau darparu (10%)

A fyddech cystal â chyflwyno'r cynigion at:

booktrustcymru@booktrust.org.uk

I drafod y prosiect, cysylltwch os gwelwch yn dda â Helen Wales, Pennaeth Gwlad – Cymru:
helen.wales@booktrust.org.uk

Dyddiad cau derbyn cynigion: 5pm, dydd Sul 6 Medi 2020

Atodiad 1: Canllawiau Ffilmio BookTrust 2020

Canllaw cyffredinol ar gyfer holl waith ffilmio BookTrust yw hwn.

Canllawiau technegol:

- **Goleuo:** Gwnewch yn siŵr eich bod yn ffilmio mewn lleoliad sydd wedi'i oleuo'n dda. Dylid osgoi gadael i'ch wyneb gael ei oleuo gan sgrîn cyfrifiadur pan fyddwch chi'n gweithio gyda camera gwe, am y gall hyn roi arlliw glas nad yw'n ddeniadol.
- **Sain:** Gwnewch yn siŵr fod y sain gystal ag y gall fod os gwelwch yn dda. Mae hyn yn bwysig iawn, felly gwnewch bopeth allwch chi i gael gwared ar unrhyw sŵn cefndirol (e.e. trafndiaeth swllyd, pobl yn siarad, peiriant golchi, teledu, peiriant awyru ac ati).
- **Ceisiwch ddefnyddio meicroffôn allanol** (h.y. nid meic mewnol iPhone) ac ewch â'r meic mor agos â phosib at ffynhonnell y sain, gan osgoi ei ddangos yn y siot.
- **Ffilmwch mewn tirlun** (oni bai am glipiau Instagram)
- **Fformat:** Y fformat a ffafir yw fideo HD ('resolution' o 1920 x 1080)
- **Lleoliad / cefndir:**
 - Gall y lleoliad fod yn unrhyw le sy'n gyffyrddus a chlyd, nid yn rhy glinigol
 - Mae'n bwysig fod unrhyw amgylchfyd yn gredadwy / perthnasol i ystod eang o deuluoedd
 - Mae angen i gefndiroedd fod mor blaen a di-dranglwms â phosib
 - Gwisgwch beth bynnag sy'n gyffyrddus i chi. Dylid osgoi unrhyw beth sy'n arddangos logos mawr, geiriau, brandio y gellir ei adnabod neu batrymau gor-lachar.

Sut fydd y ffilmiau'n cael eu defnyddio:

Bydd BookTrust yn dangos ffilmiau'n llawn ar ein gwefan, sianel YouTube a Facebook, ac yn defnyddio clipiau byrrach ar draws ei sianelau cyfryngau cymdeithasol – Facebook, Instagram, Twitter ac ati.

Byddant yn aros ar ein sianelau / gwefan.

Efallai y bydd angen i ni wneud golygiadau bychain, ac mae'n arferol i ni osod brandio BookTrust ar ddechrau a diwedd y ffilm.

Noder: Ble bynnag y bo'n bosib, byddwn ni'n cynnwys cydnabyddiaethau perthnasol.

Atodiad 2: Adnoddau Pori Drwy Stori

Adeg o'r flwyddyn	Am yr adnodd
Tymor yr hydref (hanner cyntaf)	<p>Her Rigymu</p> <p>Anfonir pecyn Her Rigymu Pori Drwy Stori i bob dosbarth Derbyn yng Nghymru yn rhad ac am ddim, ac mae'n cynnwys llyfryn o rigymau yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob plentyn, tystysgrif i bob plentyn a phosteri ar gyfer yr ysgol neu'n dosbarth. Gall plant ddysgu rhai o'r rhigymau, neu bob un, a bydd sawl ysgol yn cynnal digwyddiadau dathlu i rannu'r rhigymau gyda rhieni a gofalwyr.</p>
Tymor yr hydref (cyn ac o gwmpas hanner tymor mis Hydref)	<p>Calendr Dyna Dywydd</p> <p>Bydd pob dosbarth Derbyn yng Nghymru'n derbyn calendr ar gyfer pob plentyn, yr argymhellir y dylid ei anfon adref dros hanner tymor Hydref. Gall rhieni a gofalwyr helpu'u plentyn i greu set ddata syml a hwyliog am y tywydd, a dysgu am amser, dyddiadau a dyddiau'r wythnos.</p>
Tymor y gwanwyn (lonawr)	<p>Bagiau Llyfrau Bwmerang</p> <p>Bydd pob ysgol yn derbyn set o Fagiau Llyfrau Bwmerang i'w defnyddio gyda'r dosbarth Derbyn yn ystod tymor y gwanwyn. Bydd ysgolion yn derbyn lleiafswm o un bag i bob pum plentyn, ac mae pob bag yn cynnwys dau lyfr stori a llun hyfryd y bydd plant yn mynd â nhw adref yn eu tro. Bydd pob plentyn hefyd yn derbyn ei gylchgrawn gweithgaredd ei hun i'w gadw. Mae'r adnodd yn cefnogi darllen er pleser yn y cartref ac yn annog rhieni a gofalwyr i ymuno â'u plant fel partneriaid yn eu haddysg.</p>
Tymor y gwanwyn (cyn hanner tymor Chwefror)	<p>Cardiau Ble Mae'r Ddafad</p> <p>Bydd pob plentyn yng Nghymru'n derbyn ei set ei hun o'r cardiau hyn er mwyn datblygu sgiliau rhifedd drwy chwarae gemau syml a hwyliog. Rydym ni'n cynghori athrawon i gyflwyno'r gemau yn y dosbarth a'u hanfon adref yn ystod hanner tymor Chwefror i gefnogi teuluoedd i ymwneud â rhifedd yn y cartref.</p>
Tymor yr haf (hanner cyntaf)	<p>Fy Llyfr</p> <p>Bydd pob plentyn yn y Derbyn yng Nghymru'n derbyn ei lyfr lloffion Fy Llyfr ei hun fel rhan o Pori Drwy Stori. Mae'r adnodd creu llyfr hwn yn cefnogi prosiectau cyffrous sy'n galluogi'r plant i ddod yn awduron eu hunain!</p>

Tymor yr haf (ychydig
cyn gwyliau'r haf)

Cylchgrawn Her yr Unicorn

Bydd pob plentyn yn y Derbyn yn derbyn cylchgrawn Her yr Unicorn i fynd adref dros wyliau'r haf. Mae'r cylchgrawn yn cefnogi plant i barhau i ddefnyddio'u llythrennedd a rhifedd yn ystod y gwyliau drwy gyfrwng gweithgareddau hwyliog fel gemau bwrdd a bingo, a bydd pob plentyn hefyd yn derbyn set o ddisiau a chownteri. Rydym ni'n annog athrawon i gyflwyno'r cylchgronau a'r gemau yn y dosbarth, a sicrhau fod rhieni'n deall mai pwrpas y cylchgrawn yw cael sbort gyda'i gilydd wrth ddysgu gartref.